

Mesen

Crëwyd gan Tommo Fowler a Fay Lomas

Cyfieithwyd gan Lowri Morgan



- Pan ddweddis 'di atgof o natur, oedd o mor ddiddorol i fi ble aeth fy mhen achos y peth gyntaf, ag y cryfaf, oedd bod yn blentyn a fy nhad-cu yn mynd a fi am dro(..) ag oeddo jyst yn siarad a dangos i fi y gwahanol bethau, a dwi'n gallu, dwi'n gallu ogleuo yn union be oni'n ogleuo, ti'n gwybod, ar y walks yna. Oedd o arfer pigo pethau fynu a dweud wrthai enw bopeth. Ag ia, dyna be dwi'n meddwl am pan dwi'n meddwl am natur, nath hyna, hyna nath neidio mewn i mhen i am amser hir.
- Pan 'ti mas fana, ti'n teimlo fel rhan ohono fe, a ti'n meddwl, fi mor lwcus i fod yn ran o hyn, ti ddim moyn colli fe.
- Swni'n gallu bod yn mynd drwy yr amser gwaethaf yn fy mywyd i, ond pan dwi'n gallu bod yn yr awyrgylch yna, erm, dwi'n teimlo fel person hollol wahanol.
- Fi'n meddwl fi'n teimlo'n like, recharged. A llawn egni!
- Yn gysylltiedig. [...] calmo fi lawr, hapus.
- Yn rhydd gyda natur. Y ffordd mae pobol i fod.
- Unigedd
- Ti'n gallu jesd bod yn rhywle heb unrhywun arall, a clywed dim byd, ti dal yn gallu ffeindio'r llefydd yna!
- Y mynyddoedd a'r gwyrddni, oedd gyda ni ardd a stwff nol yn Afghanistan. Dwi ddim yn ei alw fo'n gartref oherwydd dyma fy nghartref i nawr - dyma'r tebygrwydd rwy'n gweld. Rwy'n dod o ardal sydd yn fynyddedig ag yn naturiol iawn, felly mae hynu'n ran pwysig iawn o fy mywyd a dwi'n teimlo'n gysylltiedig iawn i hynu.
- *Nostalgia* yn air arall.
- Y gair cymraeg "hiraeth", i fi. Y teimlad yna o adra neu y teimlad o pan ti i ffwrdd o rhywbeth ac yn gweld isho fe.
- Plentyndod a jyst bywyd teuluol, kind of, i gyd yn mynd mewn iddy fo. Hiraeth y teimlad na o adra.
- Aber Conwy yn y nos, awr cyn penllanw, a ti'n gallu clywed y galwad o'r rhydwy, y chwibanogl yn benodol.
- Ac yna fe gerddom ni oddi ar y carfan. Y gwymmp yn anhygoel a ti bron yn dymuno i fod yn aderyn dy hun.
- Nes i ddigwydd bod ddod ar draws yr eira cyntefig esmwyth yma, ag roedd, roedd ceffyl beichiog yn sefyll, yn cysgu, llygid ar gau, hollol llonydd, yr awyr yn bert a ddi-gwmwl las tu ôl iddi.
- Yn y dyfodol, os rydym ni'n parhau y ffordd yma, fydd na ddim natur ar ôl, neu ddim llawer o be ni'n diffinio fel natur.
- Er ein bod ni wedi datblygu yn ein dealltwriaeth (er mae hynu yn ddadleuol) um, er, dylwn ni dal gofio ein bod ni'n rhan o fyd natur, a mae'r pethau rydym ni'n gwneud gyda canlyniadau pendant.

- Dwi'n teimlo fel y pethau ti'n gweld pob dydd, dwyt ti ddim yn rhybgweithio gyda nhw gymaint ag oeddet ti pan oeddet ti'n fach, ag yn treulio mwy o amser yn edrych mewn i bethau.
- Dwi'n meddwl bod o'n drist iawn bod pobol dynol wedi arfer gyda popeth yn bodoli arlein - ti'n gallu mynd arlein a bod mewn dynwarediad o'r tuallan, pan mae o i gyd yna yn barod!
- Wel, dwi'n jyst teimlo fel mae bod mewn dinasoedd a stwff - dydi o ddim yn naturiol fel dylia fo fod..
- Mae o bron fel petai bywyd mewn dinas yn tynu ni i ffwrdd o'r natur, ti'n gwbod?
- ... yn enwedig yn Zimbabwe...lle, er, dwi'n dod o? Yna - yn yr ardaloedd gwledig, umm mae o'n, mae o'n hardd. Lle oedd fy mam-gu yn byw yna doedd dim fferyllwyr. Ond oedd hi yn gallu darganfod pethau o'r planhigion - oedd hi'n gwybod pa blanhigion i ddefnyddio ar gyfer meddyginiaeth ar gyfer, pob mathau o bethau. Mi oedd natur yn chwarae rôl enfawr yn ei, ei, ei bywydau.
- Oni'n arfer byw yn y wlad, am fel, pedair mlynedd, ag yna symudais i'r ddinas, a mae'n rhyfedd achos ers i mi symud dwi methu diodda bod gyda natur a'r wlad. Dwi'n ffeindio fo'n rhyfedd nawr. Dwi'n meddwl ei fod o wedi dad-gysylltu fi mewn ffordd.
- Felly, er, oherwydd dwi'n gweithio lot yn Gaerdydd, dwi heb gael amser i gysylltu gyda'r natur, neu i fynd i lefydd ble dwi'n gallu teimlo, mod i, yn cysylltu go iawn gyda natur?
- Dwi wrth fy modd gyda machlud yr haul, a mi allai gyfri faint o weithiau fi erioed wedi gweld machlud yma. Ag ie, dwi'n meddwl, weithiau ti ddim hyd yn oed yn gweld yr haul? Oherwydd, ti'n gwybod, yr adeiladau tal a stwff? Fel, ie. Dyna'r pethau bach ti'n sylweddoli ti'n rili rili methu?
- Mae'n gwneud fi gofio am yr adegau yn fy mywyd ble dwi wedi bod yn gwyllo machlud yr haul prydfarth neu fel edrych ar yr awyr, a fi wastad yn meddwl fel, fi isho fel, rhoi y teimlad yma mewn potel a cadw fe gyda fi am weddill fy oes a fi isho cadw rhan ohona i yn gysylltiedig i hyn, so pan fi'n mynd drwy fy mywyd prysur, fi'n cofio pwy ydw i pan dwi yma. Ti'n gwybod?
- Da ni- ti'n gwybod, 'da ni gyd ar diwedd y dydd yn anifeiliaid i fod yn agos at blanhigion a bod yn agos i'r systemau tywydd a profi hyn i gyd.
- Un o'r rhesymau dwi'n meddwl, fel pobol, symudodd llawer ohonom ni i ddinasoedd a trefi - pan ti'n gwneud hyna, mae'r iaith yn newid, ti ddim angen yr un iaith ddim mwy, mae genti eiriau newydd, oherwydd mae genti bethau newydd i ddelio gyda. A ti ddim angen gymaint o eiriau sydd yn disgrifio y llefydd naturiol a gwledig.
- Ydych chi wedi clywed am y casgliad o'r enw Lost Words? Mae o'n gasgliad o gerddi o ychydig flynyddoedd yn ôl gan, um, dwnim y pobol Rhydychen? Pwy bynnag sydd yn ysgrifenni'r geiriadur - cwlinodd geiriau o fersiwn plant o'r geiriadur a mae nhw i gyd yn

eiriau fel, enwau adar, enwau planhigion, um enwau coed. Mae gwneud hyn bron fel dweud “Does neb yn poeni bellach” A felly mi wnaeth na um, fardd, artist - sydd yn artist cymraeg Jackie Morris? - creuwyd nhw y llyfr yma - a mae o llawn cerddi, um , sydd yn acrostig, wedi seilio ar y geiriau yma. A mae o’n dweud “ Edrychwch bois, galwch chi ddim cael gwared o’r gair hedydd. Mae pobl angen gwybod, beth yw hedydd, beth yw miraren - mae hyna’n bwysig i blant. Mwy na’r oedolion hyd yn oed” A felly mi wnaeth nhw greu hwn i, atgoffa pobol o’r harddwch mewn natur.

- Os oes ganddoch chi enw ar gyfer rhywbeth, mae’n anoddach i’w frifo neu i’w ladd.
- Dwi’n meddwl bod rhan o hyn am ganolbwyntio a sylw. Dwi’n hyfforddi a hwyluso yn y mynyddoedd. Felly pan dwi’n mynd a bobl allan, ei swydd nhw ydi cael i’r top. Fy swydd i yw newid hynu. Dwi angen ehangu fo fel bod nhw’n gallu gweld y tirwedd a dod a’i ffocws nhw i lawr fel bod nhw’n gweld y blodau bach. Ag i wneud hynu dwi angen termau disgrifiadol a wneith helpu nhw gofio, ag os dwi’n gallu clymu popeth gyda stori mi wneith nhw gofio ar gyfer y dyfodol.
- Mae fy mam yn gweithio i brifysgol a mae hi mewn i Goed a stwff. Mae hi wastad fel, dyna goeden gwiniolen, dyna onnen, a dwi fel, ah ok. Ag oedd hi’n dweud hyn i gyd ers i mi fod yn ifanc.
- Rydym ni angen gallu disgrifio y rhyfeddu a’r harddwch o natur i genhedlaethau y dyfodol ag i’r rhai sydd arwahan o awyrgylch amgylcheddol. Mae geiriau hên yn cario pŵer enfawr ag yn cynnal tân yn ein dychymyg.
- Os wyt ti’n gallu dweud gwahaniaeth rhwng hwn a hwn, rwan alli di weld y gwahaniaeth. Nawr alli di weld o mewn llefydd gwahanol a gweld mwy a mwy. Ag mi alli di ddychmygu hynu yn adeiladu ag adeiladu, oherwydd bod gen ti’r iaith i’w ddisgrifio.
- Mae pob rhan o gymdeithas yn cael ei adlewyrchu mewn iaith. Mae iaith yn gysylltiedig iawn gyda cymdeithas.
- Mae fy holl dealltwriaeth o natur yn fy iaith brodorol yn wahanol iawn, ti’n gwybod. Dwi’n rili dymuno i weld un gair, sydd yn ymbarel, i bawb ddeall, erm..er, i wneud i bawb ddeall natur - Dwi’n dymuno bod ‘na ddim ond un iaith ar gyfer natur, ti’n gwybod?
- Dwi’n meddwl i’r iaith Gymraeg mae’n ddiddorol oherwydd bod geiriau gyda ystyr tu ôl iddynt.
- So ia, swni’n dweud bod y iaith Gymraeg yn unigryw yn y ffordd yna. Yn dweud pethau am beth ydi nhw yn gwneud o’n haws i ddweud, achos ti’n gallu edrych arno a dweud, beth ydio? A wedyn mae’r dau air yn gwibio i mewn i’ch pen. Mae’n gwneud o’n haws i gofio’r peth.
- Nes i gwrs arweinyddol mynyddig, dim ond y hyfforddi, ag oedd y cwrs i gyd mewn Saesneg. A be weles i oedd, pan oni ar y cwrs, yn gwneud y cwrs drwy gyfrwng Saesneg, a bod fynyr mynydd, oni wedi gwahanu o fod ar fy mynydd. Doedd dim cysylltiad. Ag

yna pan wnaethom ni gwrs penwythnos *top up* Cymraeg ag woooooof, disgynodd i'w le, yn anhygoel, jyst oherwydd bod o yn fy iaith fy hun.

- Erm felly dwi'n meddwl - dwi'n siarad dwy iaith a Saesneg ydi fy ail iaith, pan dwi'n meddwl am natur, dwi ddim yn meddwl amdano mewn Saesneg, mond mewn Cymraeg.
- mae yna prydferth iawn i blanhigion, mor ddisgrifiadol, fel cân, a wedyn yn dod a'r hanes gyda'r enwau.
- Mae Cymraeg yn iaith mor hên, sydd wedi ei basio i lawr drwy bobol, mae'r geiriau rydym ni'n defnyddio nawr yn dweud beth oedden nhw'n wybod yr holl flynyddoedd yn ôl. Ein cysylltiad i'r byd a welsom nhw.
- 'Da ni'n pasio pethau ymlaen ar lafar, mae o fel, yn cael clywed y straeon fel oedden ni'n mynd am dro. Oedda ni'n arfer mynd am dro gyda Dad ar ddydd sul..oedd o'n dweud straeon a bydde ni'n actio nhw allan..neu bydde ni'n gweld planhigyn a bydde fo'n rhoi stori bach i ni i wneud gyda hynu.
- Ti'n gwybod 'na chdi sydd yn gweu y cysylltiad a ti'n creu nhw a helpu nhw fod yn ymwybodol o bopeth o'i cwmpas..ag er ella, ella dy fod di'n dechre i ffwrdd gyda pethau sydd llawn hud a lledrith mae'n ran o cael nhw i i ymarfer ei dychymyg a'i chwilfrydedd.
- Ti'n gallu mynd drwy tirwedd drwy fytholeg. Ti'n gallu cerdded o'i gwmpas o, mewn yn y mytholeg.
- Roedd brenin gyda ci o'r enw Gelert ac mi oedd ganddo blentyn, un diwrnod pan oeddo allan yn hela....
- Aeth o allan i hela, a gadawyd y babi adref yng ngofal y ci..
- Pan ddychwelodd, daeth ei gi allan i'w gyfarfod gyda gwaed drosto, yn diferu oddi ar ei gorff, oedd o'n credu bod y ci wedi lladd y babi, felly mi laddwyd y ci
- A pan laddwyd Gelert, welodd o gorff blaidd ag y babi yn fyw..
- Felly mi adeiladodd fedd ar gyfer y ci, ag mi allwch chi fynd i ymweld Bedd Gelert dyna di enw'r lle, cyfieithiad yw Gelert's Grave a pryd bynnag dwi'n mynd yna rwan, mae o'n teimlo fel stori dylwyth teg.
- Mae llawer o gysylltiadau gyda mytholeg, mae Yr Wyddfa yn gysylltiedig a'r stori o fedd y cawr, Rita Gawr a mae'r enw yna gyda fwy o ystyr iddo. Os ti'n galw fo'n Snowdon - does dim straeon tu ôl yr enw.
- Mae Cadair Idris yn Dolgellau yn cyfiaethu yn lythrennol i 'Idris' Chair' a mae hwna'n chwedl fytholegol, mae o yr un siap a'i sedd
- Os ti'n gwybod y stori tu ôl yr enw, neu'r chwedl, oleiaf ti'n dechrau dadansoddi y geiriau, y iaith, beth mae hynu'n feddwl, ble mae hynu, ti'n treiddio yn dyfnach odan groen yr ardal, ond, mae genti gysylltiad emosiynol i'r lle - oherwydd mi wnaeth y stori wneud ti chwerhin neu crio.
- Mae fy nghynefindra fwy gyda enwau llefydd, oherywdd i mi mae nhw'n cysylltu gyda'r atgofion, cysylltu gyda rhywbeth am y lle sydd gyda'r enw yna. Felly pan dwi'n edrych

allan drwy'r ffenest.. Allaf yn aml weld lwmp bach ar ben bryncyn fan draw, sef, *the hill of the wild mountain hares*. Ddim yn rhedeg a'r flaen y dafod yn Saesneg a dwi'n da i ddim yn cynanu yn y Gymraeg. *Moel Ysgyfarnogod*. Ond i mi mae hynu'n rhan o'r hud a siap y lle a ti'n eistedd yna a ti'n meddwl waw, mae rhywun wedi dod fynd gyda'r enw yna achos mae'n rhaid bod nhw wedi eistedd yma a gweld lot o ysgwarnogod mynyddig o gwmpas yr ardal dwi'n eistedd yn edrych arno.

- Mae mapiau arolwg trefn fel enghraifft. Mae nhw wedi bod yn gwneud swydd gwell yn ddiweddar o gynnwys enwau Cymraeg dydi pobol ddim yn ymwybodol o, enwau ffarm, enwau caeau, sydd o bosib heb ymddangos ar mapiau oblaen. A mae hynu'n neis i wybod, bod nhw'n cael ei warchod. Gobeithio y geith nhw ei cofnodi rwan, yn lle cael ei cadw yn ymenydd pobol yn unig.
- Ti'n gwybod, Snowdonia yn troi yn Eryri, ti'n gwybod oedd o'n foment anhygoel dwi'n meddwl. A fel ti'n gwybod Bannau Bycheiniog yn lle y Brecon Beacons.
- Mae'n helpu ti ddod a cyd-destun i bethau, mae'n cysylltu pethau chydig yn fwy fel bod pethau ddim mewn unigedd bellach. 'Da ni mewn lle bychan yn gasgliadol, beth bynnag ydi o person, aderyn, anifail, daeareg. Da ni'n ran o'r peth yn ei gyfanrwydd. Felly mae cael yr enwau yna - enwau Saesneg - enwau Cymraeg - mae o'n teimlo fel rhan annatod o'r tapestri o ddealltwriaeth wyt ti'n rhan ohono.
- Mae bod yn geidwad ifanc wedi gwneud o'n real, wedi gwneud o'n fwy dychmygol, ti'n gweld fwy o bethau. Yn cael ei ychwanegu i'r banc atgofion. Oh ia, dyma fedwen nid ffawyddden, oni ddim hyd yn oed yn gwybod beth oedd planhigyn ysgawen, oherwydd mae genti ysgawen a gwern a mae nhw'n bethau gwahanol. A doeddwn i ddim yn gwybod hyn.
- Dwi isho helpu fwy, i wneud rhywbeth i wneud yn siwr bod o'n gallu ffynnu a bopeth, oherwydd y peth olaf 'da ni angen yw i'r holl beth ddiflannu, y peth olaf 'da ni isho i'r genhedlaeth nesaf ddod a ddim cael unrhyw ran ohono - y genhedlaeth nesaf i dyfu fynd a ddim cael dim o hyn, dim ond gweld dinasoedd yn bobman, dim dyna dwi isho.
- Dwi'n meddwl bod o'n bwysig i ddatblygu dy berthynas dy hun gyda natur, ond dwi'n meddwl bod o hefyd yn bwysig cofio bod dy berthynas efo natur yn mynd i fod yn wahanol i bawb o dy gwmoas...dwi yn Ne Cymru mewn dinas, erm, mae gen i berthynas wahanol iawn i natur.
- Mae'n ok i stopio a gwranddo ag edrych a meddwl am sbel, dwi ddim yn meddwl bod ni'n trio anghofio ond mae ein bywydau mor brysur.
- Oh my gosh, pan ti'n mynd ar y beic neu mynd am dro a edrych i mewn i'r awyr, neu ti'n gweld y coed uwchben, a mae dy lygaid jyst fel 'Mae hyn yn anhygoel, dwi ddim isho gwyllo unrhyw gyfres neu Netflix rwan, dwi mor falch fy mod i tuallan'
- Pan ti'n camu tuallan, ti wedi dy amgylchynu gan goed a mae yna synnwyr o ryfeddu? A mae hynu wedi cysylltu gyda - y iaith byddwn i'n ddefnyddio i ddisgrifio natur yn debyg

iawn i sut fyswn i'n disgrifio fy ffydd. Um. Ag felly, ti'n gwybod mae gymaint o cliches am Dduw a sut ti'n gweld Duw yn fwy clir yn y coed a'r robin goch neu beth bynnag, ond mae o'n wir bod teimlad tebyg rhwng, bod mewn eglwys gadeiriol, um, mae yna deimlad tebyg o deimlo y gwagle o ysbryd a sancteiddrwydd sydd yn bresennol ym mhopeth sydd yn fyw ond sydd ddim yn siarad. Dyna dwi'n feddwl.

- Y peth pwysicaf i mi ydi bod fy mhlant, ag fy wyresau yn cydnabod fy nheimlad o berthyn. Mi fydd amser pan rydw i'n marw a wedi mynd. Mi fydd enw ar plot claddu a fy nghorff yn yr addoldy sydd yn Garn Bodian. Mi fyddaf yn cael fy ngladdu i mewn i'r ddaear a throi mewn i glychau'r gog. Mi fyddaf yn rhan o'r lle rwyf yn caru. A mi fyddai isho fy mhlant, pan mae nhw'n dod i weld, mi fydda nhw'n eistedd yn y goedwig ar waelod y bryn odan y caer oes efydd sydd yn y top yn fano. Ag oherwydd bod y lle yna yn ymgorffori beth dwi'n garu amdano, mi fydda i o'r diwedd yn rhan ohono.
- Mae nabad enw rhywbeth yn bwysig ar gyfer atgofion a pasio yr atgofion ymlaen i eraill sydd eisiau ei ddarganfod (fel gyda fy wyresau). Mae enw blodyn yn gallu deffro teimladau ag atgofion hyfryd i mi.
- Tiwlip
- Rhosyn
- Dahlia
- Eirlys
- Blodau'r Haul
- Pabi
- Clychau'r gog
- blodyn menyn
- Rhoswydden
- Danhadlen
- Blodyn Mihangael
- Balm Lemon
- Dahlia
- Milddail
- Rhosyn y Mynydd
- Rhosmari
- Lili wen fach
- Trwmped melyn
- Llwyfanen
- Draenen Wen
- Onen
- Pinwydden
- Derwen

- Cerddinen
- Glas y Dorlan
- Oni am ddweud hyna!
- Siglen Fraith
- Be?
- Be di hwnw?
- Ti ddim yn gwybod be 'di Siglen Fraith? Aderyn rili ciwt bach du a gwyn
- Gyda cynffon sy'n edrych fel hyn..
- Siâni flewog, sef actual caterpillar - y gair cymraeg am caterpillar
- Hebog
- Pioden Fôr
- Gwalch y Pysgod
- Gwylan
- Titw Cynffon Hir
- Bronfraith
- Robin goch
- Squawk!
- Buzzard
- Bwncath
- Draig goch
- Gwas y neidr
- Dyfrgi
- Cudyll Coch
- Cnocell y Coed
- Dafad
- Aderyn y tô
- Barcud Coch
- Golfan
- Mesen, mesen, mesen